Mae holl Bartïon i'r Cytundeb Penawdau Telerau hyn wedi darparu eu llofnodion yn electronig.

CEFNDIR

1. Mae rhanbarth Canolbarth Cymru'n cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Ceredigion a Phowys. Mae gan Ganolbarth Cymru enw da am hyrwyddo twf economaidd rhanbarthol drwy bartneriaeth. Ers creu Partneriaeth Twf Canolbarth Cymru yn 2015, mae partneriaid cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ar draws y rhanbarth wedi datblygu arweinyddiaeth a llais i ddylanwadu ar, a chryfhau'r ffocws ar dyfu economi Canolbarth Cymru.
2. Gwahoddwyd rhanbarth Canolbarth Cymru gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (y Llywodraethau) yn 2017 i ddatblygu Bargaen Twf, ac ers hynny mae partneriaid wedi bod wrthi'n datblygu'r sylfaen tystiolaeth angenrheidiol drwy waith comisiynu ac ymgysylltu manwl, i lunio cynnig credadwy, ochr yn ochr â gweledigaeth ehangach o ran buddsoddi rhanbarthol.
3. Yn Rhagfyr 2019, ffurfiodd Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion (yr Awdurdodau Lleol) Gytundeb Rhyng-Awdurdod, i ffurfioli'r cydweithio a'r llywodraethu oedd ei angen i ddatblygu Bargaen Twf ar gyfer Canolbarth Cymru (y Fargaen), ac i gytuno ar ddogfen Penawdau Telerau gyda'r Llywodraethau.
4. Gosododd y Cytundeb Rhyng-Awdurdod y sylfeini ar gyfer sefydlu dull rhanbarthol o lywodraethu ar ffurf Cyd-bwyllgor (Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru (BTCC)) a grŵp sector preifat (Grŵp Strategaeth Economaidd). Mae'r Cytundeb hefyd yn gosod y swyddogaethau a'r awdurdodau arweiniol i gefnogi'r broses angenrheidiol ar gyfer darparu cyngor, cydlyniant, a gwneud penderfyniadau i ddatblygu'r Fargaen.
5. Ym Mai 2020, rhoddodd BTCC sêl ei fendith i gyhoeddi'r ddogfen 'Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru' a'i chyflwyno i'r Llywodraethau. Roedd y ddogfen yn amlinellu 'Cynllun Economaidd Strategol' ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru, yn ogystal â llwybr arfaethedig ar gyfer datblygu'r Fargaen. Roedd hefyd yn adeiladu ar yr ymgysylltu helaeth a mewnbwn gan randdeiliaid, i helpu i siapio'r cyd-destun strategol a'r achos dros fuddsoddi yng Nghanolbarth Cymru – gan osod y Fargaen bosib yn ei chyd-destun fel catalydd allweddol i drawsnewid economi'r rhanbarth, fel rhan o drefn ariannu ehangach.
6. Mae'r Awdurdodau Lleol a'r Llywodraethau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd i sicrhau Bargaen Twf ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru. Mae'r Penawdau Telerau hyn yn gosod cwmipas arfaethedig y Fargaen, a fydd yn sail i bortffolio o fuddsoddiadau a fydd yn trawsnewid economi Canolbarth Cymru.
7. Gyda'i gilydd, cyfeirir ar yr Awdurdodau Lleol, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn y ddogfen hon fel y Partïon.
8. Bydd BTCC yn penodi un o'r Awdurdodau Lleol i weithredu ar ran y ddau Awdurdod Lleol, gan ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros dderbyn a defnyddio'r cyllid a dderbynnir ar gyfer y Fargaen; yn hynny o beth, cyfeirir at yr Awdurdod Lleol hwnnw fel y 'Corff Atebol'. Gosodir a chytunir ar hyn fel rhan o ail Gytundeb Rhyng-Awdurdod (Cytundeb Rhyng-Awdurdod

- 2). Sefydli'r Swyddfa Rheoli Portffolio, a fydd yn gweithredu fel prif ryngwyneb rhwng yr Awdurdodau Lleol, y Llywodraethau, a rhanddeiliaid/cynghorwyr allweddol. Bydd y Corff Atebol yn gyfrifol am y cyllid, a bydd yn defnyddio ac yn rhyddhau cyllid o'r fath yn unol â thelerau ariannu o'r fath (a osodir yn fanwl yn y llythyrau grant a ddsbarthir gan Lywodraeth Cymru). Y Corff Atebol ar hyn o bryd yw Cyngor Sir Ceredigion. Bydd yr ail Gytundeb Rhyng-Awdurdod yn cadarnhau pwy fydd y Corff Atebol yn ystod cyfnod cyflawni'r Fargen.
9. Bydd BTCC yn atebol am gyflawniad cyffredinol a llwyddiant y Fargen, ac unrhyw atebolrwydd democrataidd, gwleidyddol a chyhoeddus. Bydd BTCC yn cael cymorth gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'r Corff Atebol (bydd yr olaf yn cyflawni'i ddyletswyddau penodol ar ran BTCC, fel y'u gosodir yn y Cytundeb Rhyng-Awdurdod ar y pryd.)
10. Y bwriad yw y bydd y Fargen yn cael ei dogfennu mewn cytundeb a wneir gan y Partïon ('Cytundeb Terfynol y Fargen'.) Mae'r Partïon yn anelu at gwblhau Cytundeb Terfynol y Fargen cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib ar ôl cwblhau'r Penawdau Telerau hyn.
11. Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu ar ffurf llythyr dyfarnu cyllid a anfonir gan Lywodraeth Cymru; dyfarnir cyllid yn sgil cymeradwyo Achos Busnes Portffolio sy'n greiddiol i Gytundeb Terfynol y Fargen, a dim ond pan fydd yna gydymffurfio â'r prosesau llywodraethu a sicrwydd trylwyr sydd ar waith.
12. Cyn cwblhau Cytundeb Terfynol y Fargen, bydd BTCC yn trefnu bod y ddau Awdurdod Lleol yn ffurfio cytundeb llywodraethu mwy manwl (h.y. ail Gytundeb Rhyng-Awdurdod). Bydd hwn yn diffinio rôl, swyddogaeth, ac aelodaeth y cyrff llywodraethu rhanbarthol ymhellach, yn ogystal â'r berthynas rhwng y Corff Atebol, yr awdurdod lleol arall, y Llywodraethau, ac unrhyw rhanddeiliaid/cynghorwyr allweddol, i hwyluso cyfnod cyflawni'r Fargen. Bwriedir y bydd yr ail Gytundeb Rhyng-Awdurdod yn disodli a chymryd lle'r un cyntaf.
13. Mae'r ddau Awdurdod Lleol wedi gweithio'n agos â'r Llywodraethau, a hyd yma, maent wedi penodi a gwneud defnydd o'r arbenigedd perthnasol i sicrhau bod unrhyw brosesau a fabwysiadir yn cydymffurfio'n llwyr â chanllawiau'r Trysorlys ac arfer gorau'r ddwy Lywodraeth. Disgwylir i'r Awdurdodau Lleol barhau i weithredu a chydweithredu yn y modd hwn, gan anelu at gydweithio a chyd-ddatblygu dull portffolio (yn unol â chanllawiau newydd y ddwy Lywodraeth) i sicrhau bod y buddsoddiad yn dod â'r gwerth gorau posib i ranbarth Canolbarth Cymru.
14. Bydd y Llywodraethau'n gweithio ar y cyd drwy Fwrdd Gweithredu Dinasoedd a Thwf Cymru fel cyd-noddwyr y Fargen. Mae'r ddwy Lywodraeth yn cydnabod y bydd mewnblannu rheolaeth o'r rhaglen a'r prosiect, a phennu pwyntiau cymeradwyo sicrwydd ffurfiol cyn arwyddo Cytundeb Terfynol y Fargen yn rheoli risg ac yn cynyddu hyder yn y gallu i gyflawni. Bydd y dull hwn yn gymorth i bawb sy'n gyfrifol am gyflawni llwyddiannus, ac yn rhoi hyder i gyllidwyr a rhanddeiliaid eraill y gellir cyflawni'r portffolio ar amser, o fewn y gyllideb, ac i safon uchel.

CRYNODEB GWEITHREDOL

15. Mae Canolbarth Cymru'n cynnwys dwy ardal awdurdod lleol, sef Ceredigion i'r Gorllewin, a Phowys i'r Dwyrain; gyda'i gilydd mae'r ddwy ardal wledig gan fwyaf hyn yn cyfrif am 34% o ehangdir cyfan Cymru. Mae'r rhanbarth yn gartref i boblogaeth o ychydig dros 200,000 ac mae'n adnabyddus am ei harddwch naturiol, ei ymchwil a'i arbenigedd diwydiannol, ei hunaniaeth ddiwylliannol gadarn a'i dreftadaeth. Mae economi Canolbarth Cymru'n chwarae rhan hanfodol o ran hyrwyddo a chefnogi twf rhyng-ranbarthol ar draws Cymru a'r DU, gan gyfrannu ~£3.6bn o werth ychwanegol gros bob blwyddyn.
16. Mae Canolbarth Cymru'n llai adnabyddus fel ardal o gyfleoedd economaidd heb eu cyffwrdd. Gyda chyfraddau uwch o fusnesau sy'n goroesi na chyfartaledd Cymru, a chydag asedau naturiol ac academaidd sy'n cynnig dewis amlwg i ymchwil arloesol, ynghyd â chryfderau busnes nodedig o fewn sectorau allweddol, mae'n darparu cyfleoedd cadarn i gryfhau clystyrau diwydiannol. Mae'n rhanbarth sydd â chyflenwad da o lafur dawnus a medrus, a chysylltiadau cymudo oddi mewn ac oddi allan i'r rhanbarth i rannau eraill o Gymru a dros y ffin i Loegr.
17. Mae nifer o heriau'n wynebu economi'r rhanbarth fodd bynnag. Ar hyn o bryd mae cysylltedd gwael, cynhyrchiant araf, seilwaith sgiliau cyfyngedig, cyfyngiadau grid, a diffyg seilwaith i gefnogi busnesau, yn amharu ar drigolion a busnesau'r rhanbarth. Bydd cynigion a ddatblygwyd yn y rhanbarth i fynd i'r afael â'r heriau hyn, ac i harneisio'r asedau a'r cyfleoedd, yn cael eu cyflwyno fel portffolio i sicrhau buddsoddiad cyfalaf. Bydd hyn yn chwarae rôl ganolog o fewn strategaeth fuddsoddi ehangach, i wireddu'r uchelgais a fynegwyd yn y Weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru yn llawn.
18. Bydd y ddwy Lywodraeth yn gweithio ar y cyd ag Awdurdodau Lleol i gyflawni Bargen a fydd yn chwarae rhan yn yr ymdrechion i adfer a sicrhau twf ar draws economïau Cymru a'r DU yn y dyfodol. Mi fydd yn mabwysiadu dull a reolir drwy bortffolio yn ystod ei ffrâm amser 15 mlynedd. Bydd hyn yn caniatáu cyflwyno cynigion aeddfed fel ysgogiad economaidd i gynorthwyo adferiad uniongyrchol ac adnewyddiad dros y tymor hirach o fewn economi'r rhanbarth. Mae'r Fargen mewn sefyllfa arbennig o dda i ddatblygu ymyriadau sy'n cyd-fynd ag uchelgeisiau'r ddwy Lywodraeth i weld yr economi'n adfer ac yn ffynnu yn y dyfodol.
19. Mae'r ddwy Lywodraeth wedi ymrwymo i barhau i gefnogi'r rhanbarth, ac i harneisio ei potensial economaidd llawn. Mae'r ddogfen Penawdau Telerau hon yn diffinio'n fras y gweithgareddau y bydd y Llywodraethau'n eu cefnogi, yn amodol ar gadarnhad bod y gweithgareddau hyn yn ymarferol, yn cynnig gwerth am arian, yn gyflawnadwy, yn fforddiadwy, ac yn cydymffurfio â Chymorth Gwladwriaethol (er boddhad y ddwy Lywodraeth). Deallir gan bob Parti nad yw hyn yn gyfystyr â chytundeb cyfreithiol rhwymol.

20. Bydd y Llywodraethau'n ymrwymo hyd at £110m i'r Fargen. Disgwylir y bydd hyn yn ysgogi cyfraniadau gan bartneriaid cyhoeddus a phreifat yn y rhanbarth, i gael y gorau posib o'r Fargen, gan osod y fframwaith ar gyfer datblygu'r portffolio.

Y CYFLE

21. Ym Mai 2020, yn dilyn ymgysylltu a chydweithio helaeth, mynegodd BTCC yr angen am newid ar gyfer economi Canolbarth Cymru a gosododd y Fargen yng nghyd-destun strategaeth economaidd ranbarthol ehangach Canolbarth Cymru, gan amlinellu'r uchelgais:

“i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd sydd ar gael i greu a chefnogi twf economaidd a chymdeithasol drwy oresgyn ei heriau, i ddod yn rhanbarth tecach, doethach sy'n cyfrannu hyd eithaf ei botensial i fynd i'r afael â'i lefelau cynhyrchiant isel.”ⁱ

22. Er gwaethaf nifer o ymdrechion i wella economi'r rhanbarth dros y blynyddoedd, mae Canolbarth Cymru ar ei hôl hi o hyd o'i gymharu â rhanbarthau eraill yng Nghymru a'r DU mewn nifer o feysydd:

- **Cynhyrchiant isel:** Mae Canolbarth Cymru yn parhau i fod ar ei hôl hi o'i gymharu â rhanbarthau eraill Cymru a'r DU yn nhermau real a fesul pen, oherwydd natur dymhorol a strwythur ei sylfaen gyflogaeth. Mae Canolbarth Cymru'n cyfrannu £3.6bn mewn Gwerth Ychwanegol Gros bob blwyddyn i economi'r DU. Mae hyn ymhlith yr isaf yn y DU ac mae'n cymharu â £65.1 biliwn ar gyfer Cymru gyfan, gyda Canolbarth Cymru'n cyfrannu tua 5.5% o'r Gwerth Ychwanegol Gros a gynhyrchir gan economi Cymru. Mae'r gyfran hon wedi aros yn gyson dros yr ugain mlynedd diwethaf bron. Dylid nodi mai Powys sy'n cofnodi'r perfformiad isaf o ran Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithir ar draws holl ardaloedd y DU.
- **Demograffig sy'n newid:** ffigurau poblogaeth sy'n lleihau a demograffig sy'n newid gan arwain at 'ganol cywasgedig' yn sgil poblogaeth hyn gymharol uchel a phoblogaeth oedran gweithio gyfatebol isel. Mae rhagamcanion poblogaeth Canolbarth Cymru ar hyn o bryd yn amcangyfrif gostyngiad o 16% yn y boblogaeth oedran gweithio, a chynnydd o 37% yn y grŵp oedran 65+ hyd at 2039. Os na eir i'r afael â hyn, mae'r duedd a ragwelir yn debygol o leihau gweithlu'r rhanbarth dros y 15 mlynedd nesaf.
- **Sylfaen economaidd gul a bregus:** sy'n creu anghydbwysedd mewn cyflogaeth a chynhyrchiant. Y cyfranwyr mwyaf at Werth Ychwanegol Gros yw gweithgynhyrchu, gwerthu tai, cyfanwerthu a manwerthu. Er mai amaethyddiaeth sy'n cyflogi'r nifer fwyaf o bobl, gan gynrychioli 37% o'r holl fusnesau, mae'n cyfrannu Gwerth Ychwanegol Gros llai o'i gymharu. Mae natur dymhorol y gyflogaeth hefyd yn gwneud yr economi'n fwy bregus, gyda'r sector twristiaeth yn cyflogi nifer sylweddol o bobl yng Nghanolbarth Cymru (23,200 yn Hydref 2019)ⁱⁱⁱ.

- **Dirywiad disgwylidig mewn cyflogaeth:** dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyflogaeth yng Nghanolbarth Cymru wedi gostwng tua 4%. Cyn Covid, roedd y rhagolygon cyflogaeth ar gyfer Canolbarth Cymru'n darogan gostyngiad sylweddol yn nifer y swyddi, a fydd yn fwy erbyn hyn oherwydd effeithiau parhaol y pandemig ar fywoliaeth pobl.
- **Marchnad lafur statig sy'n gwanhau:** mae bylchau yn y ddarpariaeth sgiliau a seilwaith i fodloni gofynion y diwydiant – mae hyn yn golygu llai o fynediad a chydardoldeb o ran cyfleoedd i bobl ifanc, gan arwain at fwy o fudo o ranbarth Canolbarth Cymru. Mae ffigur cymudo Powys o ~3,495 yn tanlinellu'n arbennig yr angen i wella cyfleoedd hyfforddiant yn y rhanbarth.
- **Methiant y farchnad:** mae gwendidau economaidd strwythurol sylfaenol yn gwaethygu methiant y farchnad; ac mae'r gyfradd adeiladu masnachol a phreswyl wan a chymharol statig, y sylfaen fusnes gul, a'r lefel isel o ddatblygiad yn y maes digidol, trafnidiaeth a seilwaith y grid ynni yn tystio i hynny. Er enghraifft, tua 81% o eiddo yng Nghanolbarth Cymru sydd â chysylltiad Band Eang Cyflym lawn (30Mbps+); mae hyn yn sylweddol is na'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru (95%) a'r DU (96%). Dim ond 19% o'r rhanbarth sydd â mynediad at Fand Eang Hynod y Gyflym (100Mbps+), o'i gymharu â Chymru (39.5%) a'r DU (60%).
- **Natur gudd economi wledig:** mae data cyflogaeth cymharol gryf a diweithdra isel yn cuddio tâl isel a thangyflogaeth. Er enghraifft, roedd yr enillion wythnosol amser llawn cyfartalog yn 93% o gyfartaledd y DU yn 2016, ac yn 94% o gyfartaledd Cymru yn 2019.

23. Dros nifer o flynyddoedd, mae rhanddeiliaid allweddol yn y rhanbarth wedi gweithio mewn partneriaeth gadarn i nodi ac ymateb i anghenion a chyfleoedd rhanbarth Canolbarth Cymru; o sefydlu Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn 2015, i'r gwaith diweddar yn sefydlu'r BTCC a grŵp y sector preifat. Mae'r trefniadau hyn wedi galluogi'r rhanbarth i ymgysylltu'n helaeth a chasglu tystiolaeth sylweddol i gyfiawnhau'r angen i fuddsoddi yng Nghanolbarth Cymru, yn y ddogfen 'Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru'. Roedd hon yn mynegi cyfleoedd amlwg i fanteisio arnynt o ran hyrwyddwyr ac asedau ymchwil, diwydiannol a dynol presennol er mwyn:

- **Denu a datblygu diwydiannau sy'n hybu cynhyrchiant rhanbarthol, enillion a thwf cyflogaeth** – i fanteisio ar gryfderau ein hasedau ymchwil, diwydiannol a sgiliau.
- **Denu a datgloi buddsoddiad sector preifat** o fewn rhanbarth Canolbarth Cymru drwy sicrhau'r amgylchedd iawn ar gyfer twf.
- **Gwneud Canolbarth Cymru'n bwerdy gwledig** sy'n datblygu cryfderau diwydiannol presennol i gynhyrchu cyfleoedd diwydiant a chyflogaeth newydd.
- **Lleihau'r mudo o'r ardal a chadw gweithlu medrus** drwy gymorth cyflogaeth a sgiliau a arweinir gan y diwydiant, ynghyd â llwybrau cyflogaeth clir.

- **Gwneud defnydd o fuddsoddiadau'r Fargen fel catalydd ar gyfer buddsoddi pellach** a newidiadau polisi, i sicrhau twf teg a chynhwysol ar draws rhanbarth Canolbarth Cymru gyfan, gan wneud y Fargen yn elfen graidd o ymdrechion rhanbarthol ehangach i adfer yr economi.

24. Mae 8 o flaenoriaethau twf strategol wedi'u nodi yn y strategaeth ranbarthol, sy'n gosod y sail ar gyfer datblygu portffolio'r Fargen (a amlinellir yn adran Portffolio'r ddogfen hon (isod)).
25. Dylai gwaith BTCC a rhoi Bargaen Canolbarth Cymru ar waith fod yn gatalydd ar gyfer cydweithredu ehangach i sicrhau'r Fargen, yn ogystal ag amcanion y ddwy Lywodraeth i gefnogi economi'r rhanbarth. Bydd hyn yn ei dro'n gatalydd ac yn gymorth i sicrhau twf yn y dyfodol er budd hirdymor dinasyddion a busnesau Canolbarth Cymru.
26. Bydd BTCC yn sefydlu Swyddfa Rheoli Portffolio i gydlynu'r gwaith o ddatblygu a chyflenwi ymyriadau strategol, gan gynnwys prosiectau'r Fargen. Bydd y Swyddfa hon yn weithredol erbyn cyfnod cyflawni'r Fargen, a bydd yn Ganolfan Rhagoriaeth ar gyfer Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau, gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu, gweithredu a monitro trefniadau a phrosesau rhaglenni a phrosiectau. Bydd y safonau a'r gweithdrefnau a fabwysiadir gan y Swyddfa Rheoli Portffolio'n seiliedig ar arfer gorau o du'r sector cyhoeddus a phreifat (fel bo'n briodol). Bydd yn cefnogi gweithgareddau a gwaith llywodraethu rhanbarthol BTCC, gan gynnwys grŵp cynghori'r sector preifat (y Grŵp Strategaeth Economaidd). Bydd yn gwasanaethu fel prif ryngwyneb ar gyfer y ddwy Lywodraeth mewn perthynas â'r Fargen, gan ddatblygu perthynas waith agos â'i rhanddeiliaid allweddol ar draws a thu hwnt i'r rhanbarth.
27. Bydd y Fargen yn cael ei chyflawni fel y gosodir yn yr 'Achos Busnes Portffolio' a'r cynllun gweithredu ategol; bydd yn cael ei datblygu a'i chytuno â'r ddwy Lywodraeth a hefyd yn unol â'r ymrwymïadau a ddatblygir fel rhan o Gytundeb Terfynol y Fargen. Cytunir hefyd ar ganlyniadau unrhyw fethiant i fodloni'r amodau a'r ymrwymïadau hyn a'u gosod yn fanwl yng Nghytundeb Terfynol y Fargen.
28. Bydd BTCC yn gweithio gyda'r Llywodraethau i gytuno ar strategaeth a phrotocol cyfathrebu. Bydd y ddogfen yn gosod sut y bydd unrhyw gyfathrebu am y Fargen a'i gweithgareddau perthynol yn digwydd yn y dyfodol mewn ffordd sy'n cwrdd ag anghenion y partneriaid rhanbarthol, yn ogystal â'r ddwy Lywodraeth. Bydd dulliau a strategaethau cyfathrebu'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau'r lefelau uchaf o ymgysylltu a chymryd rhan, gan gynnwys defnydd o'r Gymraeg.

Y PORTFFOLIO

29. Cyflwynir y Fargen ar ffurf Achos Busnes Portffolio, a ddiffiniwyd ac a ddatblygwyd o'r 8 o flaenoriaethau twf economaidd strategol a nodwyd yn y ddogfen 'Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru':

- **Amaethyddiaeth, bwyd a diod:** mae sector amaethyddol cryf a bywiog sy'n creu cyflogaeth arwyddocaol ac sy'n cynhyrchu i safon a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ar y cyd â chryfderau diwydiannol ac arloesi, yn cynnig cyfle i dyfu'r sylfaen economaidd yn sylweddol ac yn arwain at ddatblygu bwyd uchel ei werth newydd.
- **Ymchwil gymhwysol ac arloesi:** mae'n gartref i ddiwydiannau o bwysigrwydd rhyngwladol ac asedau ac arbenigedd ymchwil a datblygu a gydnabyddir yn rhyngwladol, sy'n cynnig cyfleoedd i gynyddu twf cynhyrchiant rhanbarthol.
- **Cynnig twristiaeth cryfach:** rhanbarth unigryw gyda threftadaeth gyfoethog, diwylliant ac asedau naturiol eithriadol sy'n sail i sector twristiaeth bywiog, gan gynnig llwyfan cryf i hybu twf newydd.
- **Ynni:** mae'r rhanbarth mewn sefyllfa arbennig o dda i arwain ymdrechion Cymru a'r DU o ran datblygu a chreu atebion i heriau system ynni yn y dyfodol a chyfrannu tuag at nodau di-garbon net. Mae rhanbarth Canolbarth Cymru wedi datblygu strategaeth ynni gynhwysfawr ^{iv} gyda'r weledigaeth 'o sicrhau system ynni di-garbon net sy'n arwain at fuddiannau cymdeithasol ac economaidd, yn dileu tloedi tanwydd, yn creu gwell cysylltedd rhwng Canolbarth Cymru a gweddill y DU, ac sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio ehangach ar draws y DU'.
- **Cefnogi menter:** gweledigaeth ar gyfer economi gref, gydnherth ac amrywiol yng Nghanolbarth Cymru sy'n galluogi mentrau i ddechrau, tyfu a ffynnu gyda'r cymorth a'r seilwaith iawn.
- **Digidol:** mae cysylltedd yn rhan hanfodol o fywyd modern, sy'n dylanwadu ar sut mae unigolion yn gweithio, yn cyfathrebu ac yn derbyn gwasanaethau. Gellir datgloi cyfleoedd economaidd sylweddol drwy fuddsoddi yn y seilwaith digidol rhanbarthol.
- **Trafnidiaeth:** bydd angen gwella cysylltedd hefyd fel catalydd i hyrwyddo buddsoddi pellach i dyfu rhanbarth Canolbarth Cymru, gan adeiladu ar y cysylltedd presennol i helpu i sicrhau'r rhwydwaith trafndiaeth sydd ei angen i gwrdd â gofynion symudedd cymdeithasol a llafur economi sy'n tyfu.
- **Sgiliau a chyflogaeth:** bydd marchnad lafur effeithiol a gweithredol, gyda chyflenwad priodol o sgiliau a gweithlu medrus i gwrdd â gofynion busnes a diwydiant yn hanfodol os ydy economi Canolbarth Cymru am dyfu a ffynnu.

30. Er y bydd manylion amcanion buddsoddi'r Portffolio'n cael eu datblygu fel rhan o'r achos busnes – bydd gofyn i'r Portffolio sicrhau twf sylweddol o ran swyddi a chynhyrchiant o fewn economi Canolbarth Cymru yn ystod oes y Fargen.
31. Bydd y Portffolio hefyd yn anelu at ddatblygu set ehangach o ganlyniadau a deilliannau cynradd ac eilaidd i hyrwyddo lles economaidd rhanbarth Canolbarth Cymru, drwy fesurau i leihau carbon, cadw sgiliau, lleihau anghydraddoldeb, a datblygu defnydd o'r Gymraeg. Bydd y Fargen hefyd yn archwilio'r rôl y gall ei chwarae o ran hyrwyddo Adferiad Gwyrdd a sicrhau economi fwy cydradd o fewn y DU.
32. Mae manylion gweithgareddau'r Portffolio ar ffurf Rhaglenni a Phrosiectau posib yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Achos Busnes Portffolio (fel y'i diffiniwyd gan ganllawiau Trysorlys y ddwy Lywodraeth). Bydd BTCC yn gweithio gyda'r ddwy Lywodraeth i ddatblygu dull o gytuno ar y mecanwaith a'r lefel o adolygu a sicrhau ansawdd achosion busnes a fydd yn briodol i lefel y buddsoddiad. Bydd y gofynion yn unol ag arfer gorau a chanllawiau rheoli portffolios ar y pryd. Bydd hyn yn cael ei ddiffinio a'i osod mewn dogfennau sicrwydd, llywodraethu a gweithredu cytunedig, i'w datblygu rhwng arwyddo'r Penawdau Telerau ac arwyddo Cytundeb Terfynol y Fargen.

LLYWODRAETHU A SICRWYDD

33. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn ac effeithiol yn hollbwysig ar gyfer gweithredu llwyddiannus, a darparu sicrwydd a hyder yn y dulliau cyflenwi ar gyfer y llywodraethau, awdurdodau lleol, a phartneriaid rhanbarthol ehangach. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Fargen hyd yn hyn wedi golygu ymgysylltu helaeth a mewnbwn gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, o ddatblygu'r strategaeth a'r cynigion hyd yma, at sefydlu strwythurau llywodraethu newydd i sicrhau cyngor a mewnbwn cryf o du'r sector preifat. Mae hyn wedi arwain at sefydlu Grŵp Strategaeth Economaidd, sy'n cynnwys, ac sydd wedi'i gadeirio gan gynrychiolwyr y sector preifat. Mae'r Grŵp Strategaeth Economaidd yn darparu cyngor arbenigol, cymorth a her annibynnol i BTCC, i sicrhau bod y cynigion a gyflwynir a'r penderfyniadau a wneir yn adlewyrchu buddiannau'r sector preifat.
34. I gynorthwyo i gyflawni a gweithredu'r Fargen, bydd yr Awdurdodau Lleol yn adeiladu ar y trefniadau llywodraethu cyfredol dan y Cytundeb Rhyng-Awdurdod presennol drwy roi ail Gytundeb Llywodraethu ar waith (a fydd yn disodli'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod cyntaf). Fel rhan o fuddsoddiad newydd yn economi'r rhanbarth, bydd Gweinidogion y ddwy Lywodraeth yn disgwyl ymgysylltu effeithiol ag adrannau perthnasol y Llywodraeth, addysg drydyddol, a'r trydydd sector, yn ogystal â mewnbwn ystyrion gan uwch arweinwyr diwydiant a busnes.
35. Bydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Fargen yn cael eu harwain gan Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd Bargeinion Dinesig a Thwff, a bydd y Partïon yn cytuno i gadw at drefniadau o'r fath sydd yn eu lle ar y pryd.

36. Bydd y ddwy Lywodraeth yn gofyn am ddefnydd o'r canllaw Gwell Achosion Busnes, sy'n defnyddio methodoleg y Model Pum Achos, wrth ddatblygu Achos Busnes Portffolio, a'i raglenni a'i brosiectau diffiniedig. Defnyddir yr Achos Busnes hwn fel sylfaen i ddatblygu a rheoli Portffolio Bargen Twf Canolbarth Cymru. Disgwylir y bydd y gwaith o reoli a chyflawni'r achosion busnes hyn yn dilyn y canllawiau perthnasol ar reoli portffolios, rhaglenni a phrosiectau.
37. Bydd y portffolio, ac unrhyw raglenni a phrosiectau perthynol, yn cael ei berchnogi a'i arwain yn rhanbarthol gan BTCC, a bydd y Corff Atebol yn gyfrifol am reolaeth ariannol y Fargen a swyddogaethau penodol, y manylir arnynt yn yr ail Gytundeb Rhyng-Awdurdod, ar ran BTCC. Cyfrifoldeb y Corff Atebol fydd rheoli ymrwymadau ariannol y Portffolio, a'i raglenni a'i brosiectau, o fewn cyllidebau diffiniedig ac ar ran BTCC.
38. Bydd unrhyw gyllid a addewir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer y Fargen yn cael ei ddarparu yn ôl proffil ariannu gwastad dros gyfnod o 15 mlynedd, ac ni fydd y cyfnod ariannu hwn yn dechrau nes bod y telerau rhyddhau wedi'u bodloni.
39. Dros oes 15 mlynedd Portffolio'r Fargen, mae'r ddwy Lywodraeth yn bwriadu darparu cyllid i'r Corff Atebol yn flynyddol. Bydd rhyddhau'r arian yn amodol ar gytuno ar ddulliau sicrwydd a monitro cyflawniad y Portffolio er boddhad y Llywodraethau. I ddechrau, bydd hyn yn seiliedig ar arddangos dichonoldeb, ymarferoldeb a gwerth am arian Achos Busnes Portffolio'r Fargen. Fel y cyfryw, mae'r holl ymrwymadau yn y ddogfen hon yn amodol ar gymeradwyo achosion busnes. Fel rhan o'r broses gymeradwyo hon, mi fydd angen boddhau'r Llywodraethau ar nifer o bwyntiau, er enghraifft, bod y cyllid perthnasol yn cyd-fynd â pholisïau perthnasol adrannau a llywodraethau, bod pwerau cyfreithiol perthnasol wedi'u nodi, a bod yr wybodaeth a ddarperir yn cydymffurfio â'r fframwaith llywodraethu a sicrwydd cyfredol
40. Mae'r Partïon yn cytuno y byddant, ar gwblhau Cytundeb y Fargen Derfynol, yn rhan o berthynas 15 mlynedd, a fydd angen esblygu ac addasu. Bydd y Partïon yn gwneud pob ymdrech resymol i ddatblygu a chynnal proses effeithiol ar y cyd, i sicrhau bod eu berthynas yn datblygu'n briodol ac yn unol ag unrhyw egwyddorion ac amcanion cytunedig a nodwyd yng Nghytundeb Terfynol y Fargen neu ddogfennau perthnasol eraill. Mae'r ddwy Lywodraeth yn cydnabod 'Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru' BTCC a'r achos a gyflwynir yn y ddogfen dros newid, a'i rôl fel partner o ran gwireddu uchelgais hirdymor rhanbarth Canolbarth Cymru.
41. Mae'r ddwy Lywodraeth a BTCC yn ymrwymo i weithio i wireddu potensial economaidd rhanbarth Canolbarth Cymru, i sicrhau budd ac effaith i'r naill ochr a'r llall o'r arian cyhoeddus, ac i ddatgloi potensial y sector preifat – gan sicrhau bod y Fargen yn chwarae ei rhan, ochr yn ochr â buddsoddi rhanbarthol a buddsoddi ehangach o du'r Llywodraeth yng Nghanolbarth Cymru.
42. Nid oes, ni fwriedir, ac ni ddylid barnu bod unrhyw beth o fewn y Penawdau Telerau hyn yn sefydlu unrhyw bartneriaeth neu fenter ar y cyd rhwng y Partïon, yn golygu bod

unrhyw Barti yn asiant i Barti arall, neu'n awdurdodi unrhyw un o'r Partïon i greu neu ymglymu i unrhyw ymrwymïadau ar gyfer, neu ar ran, unrhyw Barti arall.

DULLIAU O WEITHIO

43. Mae'r Partïon yn cytuno i weithio mewn partneriaeth a gweithio ar y cyd i ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi yn ystod oes y Fargen.
44. Mae'r Partïon wedi ymrwymo i sicrhau eglurder wrth weithredu a gwneud penderfyniadau, ond hefyd i gydnabod, er mwyn i berthnasoedd weithredu'n effeithiol, bod yna rai amgylchiadau lle mae'n rhaid i Bartïon gadw cyfrinachedd, yn enwedig pan fydd yna sensitifrwydd masnachol.
45. Mae'r Partïon yn ymrwymo i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen i alluogi'r ddwy Lywodraeth i ymgymryd â gwaith dadansoddi, sicrwydd a monitro, i ryddhau cyllid o fewn y raddfa amser a gytunwyd, a chydabod y bydd unrhyw wybodaeth o'r fath yn cael ei darparu mewn dull neu ar fformat sy'n cydymffurfio â'r gofynion llywodraethu a sicrwydd ar y pryd, fel y'u pennir gan y naill Lywodraeth neu'r llall.

CAMAU NESAF

46. Bydd y Corff Atebol a'r Awdurdodau Lleol yn adeiladu ar y berthynas bresennol â Swyddfa Cyflawni Prosiectau Llywodraeth Cymru, i sicrhau'r lefel briodol o lywodraethu a sicrwydd sy'n angenrheidiol yn ystod oes y Fargen. Bydd hyn yn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n gywir, gan gyflawni'r buddiannau a'r canlyniadau a ddymunir. Bydd Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyaeth Integredig, wedi'i gyd-gynllunio gan y ddwy Lywodraeth, yn cael ei ddatblygu - gan roi ystyriaeth benodol i ganllawiau'r Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau, megis proses Adolygiad Gateway™ Swyddfa Masnach y Llywodraeth. Bydd hyn yn sicrhau bod yna fframwaith sicrwydd cytunedig a fydd yn caniatáu i BTCC fabwysiadu dull rheoli portffolio. Bydd hyn yn sicrhau bod y gweithgaredd a gynigir wrth ddatblygu rhaglenni/prosiectau posib yn cynnwys trefniadau clir ar gyfer datblygu achos busnes sy'n cydymffurfio â'r canllaw Achos Busnes Gwell. Bydd hyn yn sicrhau cydweddu strategol, yn mynd i'r afael ag anghenion busnes, yn sicrhau gwerth cymdeithasol gorau, ac yn gwella dulliau cyflenwi, fforddiadwyedd a lefelau cyflawni - i adlewyrchu meini prawf llwyddiant y Portffolio.
47. Bydd yr Awdurdodau Lleol yn gweithio gyda'r ddwy Lywodraeth i ddatblygu Cytundeb Terfynol y Fargen ar sail Achos Busnes Portffolio Model Pum Achos, cynllun gweithredu manwl, Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyaeth Integredig, cynllun ariannol sy'n rhoi ystyriaeth i fforddiadwyedd dros oes y Fargen, ynghyd â fframweithiau monitro a gwerthuso.
48. Mae'r ddwy Lywodraeth yn ymrwymo i gyfathrebu gofynion, dogfennau a cherrig milltir disgwylidig yn glir i'r Awdurdodau Lleol, i sicrhau Cytundeb Terfynol y Fargen. Mewn

ymateb, mae'r Awdurdodau'n ymrwymo i gyd-ddatblygu'r dogfennau gofynnol mewn ffordd amserol a phriodol gyda'r ddwy Lywodraeth.

49. Mae'r Partïon yn ymrwymo i barhau i gydweithio'n agos â'i gilydd i symud ymlaen yn gyflym i ddatblygu'r Fargen, yn amodol ar fodloni gofynion a rhagofynion allweddol, a fydd yn ofynnol i osod sylfaen Cytundeb Terfynol y Fargen.

DIWEDD

-
- ⁱ Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru, Mai 2020 – copi ar gael ar <http://tyfucanolbarth.cymru>
ⁱⁱ StatsCymru, Rhagfyr 2019 (Bydd y pandemig Covid-19 wedi effeithio ar y ffigur hwn, ac felly hefyd ffigurau economi Cymru a'r DU 2020)
ⁱⁱⁱ StatsCymru, Cyflogaeth yn y Gweithle, Hydref 2019
^{iv} Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru, Haf 2020 – copi ar gael ar <http://tyfucanolbarth.cymru>

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Mid Wales Growth Deal Heads of Terms Agreement



UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru




Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



Our signing of this document confirms our joint commitment to achieve the full implementation of the Mid Wales Growth Deal.



The Rt Hon Simon Hart MP
Secretary of State for Wales
UK Government



Lee Waters MS
Deputy Minister for Economy and
Transport
Welsh Government



David TC Davies MP
Parliamentary Under Secretary of State for Wales
UK Government



Cllr Rosemarie Harris
Leader
Powys County Council



Cllr Ellen ap Gwynn
Leader
Ceredigion County Council

All Parties to this Heads of Terms Agreement have provided their signatures electronically.

BACKGROUND

1. The Mid Wales region comprises the local authority areas of Ceredigion and Powys. Mid Wales has a strong track record of driving regional economic growth in partnership. Ever since the creation of the Growing Mid Wales Partnership in 2015, public, private and voluntary partners across the region have developed leadership and voice to influence and strengthen the focus on growing the Mid Wales economy.
2. The Mid Wales region was invited by the UK Government and the Welsh Government (the Governments) in 2017 to develop a Growth Deal, and partners have since been working to develop the necessary evidence baseline through detailed commissions and engagement to build a credible proposal, alongside a broader vision of regional investment.
3. In December 2019, Powys County Council and Ceredigion County Council (the Local Authorities) entered into an Inter-Authority Agreement (IAA) to formalise the collaboration and governance required to bring forward the development of the Mid Wales Growth Deal (the Deal), and to agree a Heads of Terms document with the Governments.
4. The IAA set the foundations for establishing regional governance in the form of a Joint Committee (Growing Mid Wales Board (GMWB)) and a private sector group (Economic Strategy Group). It also sets out the lead functions and authorities to support the process required to provide the advice, co-ordination and decision making to develop the Deal.
5. In May 2020, the GMWB approved the publication and submission to the Governments of the “Vision for Growing for Mid Wales” documentⁱ, which outlined the ‘Strategic Economic Plan’ for the Mid Wales region, as well as the proposed pathway for the development of the Deal. The document built on extensive stakeholder engagement and input to help shape the strategic context and case for investment in the Mid Wales region – setting the potential Deal in context as a key catalyst to transform the regional economy as part of a broader funding mix.
6. The Local Authorities and the Governments have agreed to work with one another to conclude a Growth Deal for the Mid Wales region. These Heads of Terms set out the intended scope of the Deal, upon which a portfolio of investments will transform the Mid Wales economy.
7. Together, the Local Authorities, the UK Government and the Welsh Government are referred to in this document as the Parties.
8. The GMWB will appoint one of the Local Authorities to act on behalf of both Local Authorities in assuming responsibility for receiving and utilising the funds for the Deal; in that capacity, the relevant Local Authority will be referred to as the “Accountable Body”. This will be set out and agreed to as part of a second IAA (inter-authority agreement 2). A

Portfolio Management Office (PMO) will be established, and will act as the primary interface between the Local Authorities, the Governments and key stakeholders/advisers. The Accountable Body will hold the funds, and only use and release such funds in accordance with the terms of such funding (which will be set out in detail in the grant offer letters issued by the Welsh Government). The Accountable Body at present is Ceredigion County Council. The second Inter-Authority Agreement will confirm who is to be the Accountable Body for the delivery stage of the Deal.

9. The GMWB will be accountable for the overall delivery and success of the Deal, and for democratic, political and public accountability. The GMWB will be supported by the PMO and the Accountable Body (the latter will discharge its specific duties, on behalf of the GMWB, as set out in the then current IAA).
10. It is intended that the Deal will be documented in an agreement entered into by the Parties (“Final Deal Agreement”). The Parties aim to conclude the Final Deal Agreement as soon as practically possible following conclusion of these Heads of Terms.
11. Funding will be made available in the form of an award of funding letter from the Welsh Government; the award of funding will be made following the approval of a Portfolio Business Case underpinning the Final Deal Agreement, and only with compliance with the robust governance and assurance processes implemented.
12. Prior to the conclusion of the Final Deal Agreement, the GMWB will facilitate an arrangement whereby the two Local Authorities will enter into a more detailed governance agreement (i.e. a second Inter-Authority Agreement). This will further define the role, function, and membership of regional governance, as well as the relationship between the Accountable Body, the other local authorities, Governments and any key stakeholders/advisers to support the delivery phase of the Deal. It is intended that the second IAA will replace and supersede the first IAA.
13. Both Local Authorities have worked closely with the Governments and, to date, have appointed and utilised relevant expertise to ensure that the processes adopted are fully compliant with Treasury guidance and best practice of both Governments. The Local Authorities will be expected to continue to operate and co-operate in this vein, and with a view to collaborating and co-developing a portfolio approach (in line with emerging guidance from both Governments) that brings maximum value of the investment to the Mid Wales region.
14. The Governments will work collaboratively through the Welsh Cities and Growth Implementation Board as co-sponsors of the Deal. Both Governments recognise that embedding programme and project management in conjunction with formal assurance approval points ahead of signing the Final Deal Agreement will manage risk and improve delivery confidence. This approach will support all those responsible for successful delivery, whilst providing funders and other stakeholders with confidence that the portfolio can deliver on time, budget and quality.

EXECUTIVE SUMMARY

15. Mid Wales comprises the two local authority areas of Ceredigion to the West, and Powys to the East; combined, the largely rural region accounts for 34% of the total land mass of Wales. It is home to a population of just over 200,000 people and is well-known for its natural beauty, research and industrial expertise, strong cultural identities and heritage. The Mid Wales economy is a critical component in driving and supporting intra-regional growth across Wales and the UK, contributing ~£3.6bn GVA annuallyⁱⁱ.
16. Mid Wales is less well-known as a land of untapped economic opportunity. Where business survival rates outclass the Welsh average, and where the natural and academic assets offer an obvious choice for cutting-edge research, and combined with notable business strengths in key sectors, it provides strong opportunities to strengthen industry clusters. A region with a strong supply of talented and skilled labour, with strategic commuter links within and outside the region to other parts of Wales and cross-border into England.
17. The region's economy however has its challenges. Poor connectivity, lagging productivity, limited skills infrastructure, grid constraints and a lack of supporting business infrastructure currently hinder its residents and businesses. Proposals developed in the region designed to address these challenges, and harness the assets and opportunities, will be brought forward as a portfolio to secure capital investment. This will play a pivotal role in a broader investment strategy to realise the full extent of the ambition articulated in the Vision for Growing Mid Wales.
18. Both Governments will work collaboratively with the Local Authorities to deliver a Deal that will play a part in driving the recovery and future growth efforts across the Welsh and UK economies. It will follow a portfolio-managed approach over its 15 year timeframe. This will allow mature proposals to be brought forward as economic stimulus to support immediate recovery and longer-term renewal in the regional economy. The Deal is particularly well-placed to develop interventions that align with both Governments' ambitions to see the economy recover and prosper in the future.
19. Both Governments are committed to continuing their support for the region, and to harness its full economic potential. This "Heads of Terms" document defines the broad activities that the Governments will support, subject to confirmation that these activities are viable, offer value for money, and are deliverable, affordable and State Aid compliant (to the satisfaction of both Governments). It is understood by all Parties that this does not form a legally binding contract.
20. The Governments will commit up to £110m to the Deal. This will be expected to bring forward contributions from public and private partners in the region to maximise the leverage from the Deal, upon which the development of the portfolio will be framed.

THE OPPORTUNITY

21. In May 2020, following extensive engagement and collaboration, the GMWB articulated the case for change for the Mid Wales economy and set the Deal in the context of a broader regional economic strategy for Mid Wales, setting out the ambition to:

“take full advantage of the opportunities available to create and support economic and social growth by overcoming its challenges to become a fairer, smarter region that contributes to its full potential to address its productivity challenge.”ⁱ

22. Despite a succession of efforts to improve the regional economy over the years, Mid Wales continues to lag behind other Welsh and UK regions in a number of areas:

- **Lagging productivity:** Mid Wales continues to lag behind other Welsh and UK regions in real and per head terms due to the seasonality and structure of its employment base. Mid Wales contributes £3.6bn in annual Gross Value Added (GVA) to the UK economy. This is amongst the lowest in the UK and compares to £65.1 billion for Wales as a whole, with Mid Wales contributing approximately 5.5% of the GVA generated by the Welsh economy. This proportion has remained constant over almost the last twenty years. Notably, Powys records the lowest performance for GVA per hour worked of all areas across the UK.
- **Changing demographics:** reducing population figures and changing demographics, leading to a ‘pinched middle’ due to a relatively larger older population and a proportionately smaller working age population. Population projections for Mid Wales currently estimate a 16% decline in the working age population and 37% increase in the 65+ age group to 2039. Unless addressed, this predicted trend is likely to reduce the region’s workforce over the next 15 years.
- **Narrow and vulnerable economic base:** leading to employment and productivity imbalances. The largest GVA contributors are manufacturing, real estate and wholesale and retail. Whilst agriculture employs the most people, representing 37% of all businesses, it contributes comparatively less GVA. Seasonality also exacerbates the economic vulnerability, for with the tourism sector employing a significant number of people in Mid Wales (23,200 as of October 2019)ⁱⁱⁱ.
- **Projected employment decline:** Over the past five years, employment in Mid Wales has decreased by around 4%. Pre-Covid, the employment forecasts for Mid Wales were projecting significant reduction of total job numbers, which will now be in even sharper focus due to the lasting impacts of the pandemic on livelihoods.
- **Static and weakening labour market:** gaps in skills provision and infrastructure to meet industry demands – this leads to reduced accessibility and equality of opportunity for young people, reinforcing migration from the Mid Wales region. Powys’ commuting out of the region of ~3,495 especially highlight the need to improve employment opportunities in the region.

- **Market failure:** Underlying structural economic weaknesses mutually reinforce market failure; evidenced by weak and relatively static commercial and residential build rates, declining and narrowing business base and the lagging development of digital, transport and energy grid infrastructure. For example, approximately 81% of premises in Mid Wales have the capability to connect to Superfast Broadband (30Mbps+); this is significantly lower than the overall figure for Wales (95%) and the UK (96%). Only 19% of the region currently has access to Ultrafast Broadband (100mbps+), compared to Wales (39.5%) and the UK (60%).
- **The hidden nature of a rural economy:** the relatively strong employment, and low unemployment data masks issues of low pay and underemployment. Average full-time weekly earnings, for example, were 93% of the UK average in 2016, and 94 % of the Wales average in 2019.

23. Over a number of years, key stakeholders in the region have worked in a strong partnership to identify and respond to the needs and opportunities of the Mid Wales region; from the establishment of the Growing Mid Wales Partnership in 2015, to the recent work in establishing the GMWB and the private sector group. These arrangements have enabled the region to engage extensively and gather a significant evidence base to justify the need for investment in Mid Wales in the “Vision for Growing Mid Wales” document. This articulated clear opportunities to be exploited from existing drivers and assets in research, industrial and human capital to:

- **Attract and develop industries that drive regional productivity, earnings and employment growth** – capitalising on the strengths of our research, industrial and skilled assets.
- **Attract and unlock private sector investment** within the Mid Wales region by ensuring the right environment for growth.
